

COFNODION AMGYLCHEDD HANESYDDOL RHANBARTHOL

Polisi Mynediad ac Adennill Costau

Cyflwyniad

Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol rhanbarthol a gesglir ac a gynhelir gan bedair Ynddiriedolaeth Archaeolegol Cymru yn darparu catalog cynhwysfawr o safleoedd a darganfyddiadau archaeolegol a hanesyddol o bob cyfnod ledled Cymru. Ar hyn o bryd, cedwir oddeutu 300,000 o gofnodion unigol gan y pedair ynddiriedolaeth ranbarthol a chânt eu diweddarau a'u hystyngwrth wrth i wybodaeth newydd ddod ar gael.

Mae'r CAH yn cyflawni ystod eang o swyddogaethau yn cynnwys cynorthwyo i reoli'r amgylchedd hanesyddol, llywio gwaith cynllunio a datblygu, ac fel ffynhonnell ar gyfer cyfrannu i brosiectau hanes, cadwraeth a thwristiaeth leol. Darpara'r ddogfen hon ganllawiau ar gyfer mynediad at wybodaeth a gynhwysir yn y cofnodion.

Rhydd Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016¹ ddyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i gasglu a chadw'n gyfredol gofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae Adran 36 yn gosod allan ddyletswydd mynediad i CAH. Mae Gweinidogion Cymru wedi dewis defnyddio CAH sydd mewn bod y bedair Ynddiriedolaeth Archaeolegol Cymru er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, ac i arddangos y CAH statudol i'r cyhoedd trwy gyfrwng gwefan Archwilio (<https://www.archwilio.org.uk/>). Fodd bynnag, nid yw Archwilio yn rhoi mynediad at y CAH llawn. Er mwyn canfod a yw'r cofnod yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol nad yw ar gael ar lein eto, dylai defnyddwyr gysylltu â'r CAH yn uniongyrchol.

Cedwir y CAH mewn system rheoli data soffistigedig y mae ei strwythur yn cwrdd â safonau cenedlaethol cydnabyddedig ar gyfer cofnodi lefel gyson o wybodaeth ar gyfer pob cofnod. Mae'r CAH yn cynnwys cofnodion ar gyfer asedau hanesyddol yn ogystal â digwyddiadau² sydd wedi'u cynnal o'r 16^{eg} ganrif ymlaen. Mae gwybodaeth a gofnodir yn cynnwys manylion megis cyfeirnod grid, cymuned, statws dynodedig, math o ased hanesyddol, cyfnod, cyflwr a ffynonellau llyfryddiaethol. Mae'r CAH hefyd yn cynnwys cofnodion cartograffig, dogfenol a ffotograffig ac nid yw llawer ohonynt yn bodoli ar ffurf ddigidol. Mewn llawer o achosion, yr hyn yw'r cofnodion yw crynodeb neu fynegai o wybodaeth a gofnodir yn rhywle arall. O'r herwydd, mae'r CAH yn gyfeiriad defnyddiol at wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol ac yn fan cychwyn defnyddiol ar ei chyfer. Felly, yn aml iawn, bydd yn rhaid galw ar wasanaethau archaeolegydd profiadol i fesur arwyddocâd llawn safleoedd penodol a restrir yn y cofnodion.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/pdfs/anaw_20160004_en.pdf

² Caiff *Digwyddiad* ei ddiffinio gan Weithgor Cymru ar Safonau Data'r Amgylchedd Hanesyddol fel unrhyw ddarn o waith archaeolegol, p'run a yw o natur ymwthiol (e.e. Cloddio), heb fod yn ymwthiol (e.e. Arolwg Ffotograffig), neu reoli (e.e. Cynllun Rheoli neu Reoli Llystyfiant).



Erys hawlfraint strwythur a chynnwys data'r CAH gydag Ymddiriedolaethau Archaeolegol unigol oni nodir hynny fell arall. Telir cyfran o gostau cynnal a datblygu'r CAH rhanbarthol gan Cadw, Awdurdodau Unedol ac arian grant arall ond codir incwm ychwanegol i wasanaethu costau ymchwiliadau allanol o natur fasnachol.

Amodau

1. Fel arfer bydd mynediad at wybodaeth a gedwir yn y CAH rhanbarthol ar gael ar bob adeg resymol.

Yn y lle cyntaf, gofynnir i ddefnyddwyr lenwi ffurflen gais yn amlinellu'r wybodaeth y maent ei heisiau a'r rheswm am eu hymholiad. Mae modd cael ffurflenni trwy ffonio'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol berthnasol, ysgrifennu ati neu ymweld â'i gwefan. Os nad oes modd ateb yr ymholiad yn syth, dylai defnyddwyr ddisgwyl cael gwybod pa bryd y bydd y wybodaeth ar gael ac ar ba ffurf y bydd. Efallai y bydd angen gwneud ymholiadau ar wahân i bob CAH unigol os yw'r ymholiad yn ymwneud â mwy nag un rhanbarth.

2. Byddir yn gwrthod mynediad at wybodaeth os ystyrir y byddai ei rhyddhau'n peryglu'r adnodd archaeolegol.

Byddir yn gofyn i ddefnyddwyr ddatgan pwrpas gofyn am y wybodaeth, addo y byddir yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y pwrpas a ddatganwyd yn unig ac na fydd yn cael ei throsglwyddo i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig y CAH rhanbarthol. Pe byddid yn camddefnyddio'r wybodaeth a roddir gellid erlyn neu wahardd mynediad pellach at y CAH rhanbarthol.

Dylai defnyddwyr sicrhau y ceisir cyngor archaeolegol arbenigol ar effeithiau posib unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar yr adnodd archaeolegol.

3. Gwneir ymdrechion rhesymol i ddilysu'r wybodaeth yn y CAH ond bydd defnyddwyr yn gyfrifol am wirio a ydyw'r wybodaeth yn gywir.

Mae cofnodion yn y CAH rhanbarthol wedi'u casglu o nifer o wahanol ffynonellau ac efallai nad yw rhai wedi'u dilysu.

Mae'r CAH rhanbarthol yn croesawu cael gwybod am unrhyw gamgymeriadau.

4. Byddir yn ymdrin yn briodol â gwybodaeth gyfrinachol neu freiniol a gafwyd gan y defnyddiwr ac a roddwyd yn y CAH rhanbarthol. Dylid rhoi gwybod i'r CAH am unrhyw wybodaeth o'r fath adeg ei chyflwyno.

5. Byddir yn dal gwybodaeth gyfrinachol neu freiniol a gynhwysir yn y CAH yn ei hôl onid yw'r defnyddiwr wedi cael caniatâd priodol ymlaen llaw

6. Dewis yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol unigol fydd rhoi i ddefnyddwyr fynediad uniongyrchol at y CAH

Gallai amgylchiadau ganiatáu i ddefnyddwyr adfer gwybodaeth eu hunain o'r CAH er, fel arfer, bydd yn fwy priodol iddynt gael cymorth staff yr Ymddiriedolaeth.

7. Bydd disgwyl i ddefnyddwyr y CAH llynu wrth yr holl gyfyngiadau hawlfraint a chyfreithiol eraill a allai fod yn berthnasol i wybodaeth a gedwir yn y cofnod.



Gallai cofnodion ategol gynnwys deunydd y cedwir yr hawlfraint gan sefydliad arall. Mae Deddf Gwarchod y Cyhoedd 1998 hefyd yn rheoli rhyddhau mathau penodol o wybodaeth.

Dylid darllen y ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru' am fanylion ar hawlfraint a chydabyddiaeth.

8. Gellir cyfyngu ar faint o wybodaeth a ryddheir i un Defnyddiwr.

Gellid defnyddio cyfyngiadau os ystyrir bod perygl y gallai hyn arwain at ddefnyddio'n ddireolaeth gyfrannau sylweddol o'r cofnod neu sefydlu data-bas sy'n cystadlu yn ei erbyn ac sydd heb ei reoleiddio.

Gallai bod yn ofynnol i ddefnyddwyr lofnodi cytundeb trwyddedu cyn y gellir rhyddhau data

9. Bydd gofyn i ddefnyddwyr gydnabod y defnydd a wneir o CAH mewn unrhyw ddogfen neu adroddiad a gyhoeddir.

Dylid darllen y ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru' am fanylion ar hawlfraint a chydabyddiaeth.

10. Mae disgwyl i ddefnyddwyr sicrhau bod unrhyw wybodaeth newydd neu ddiwygiedig ar gael i'w chynnwys yn y CAH o fewn amser rhesymol, Byddir yn parchu preifatrwydd cyhoeddi gwybodaeth newydd pan fo'n ofynnol gan y cyfrannwr.

Dylid darllen y ddogfen 'Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Data i'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol Cymru' ar faterion cynnwys cofnod, diwyg a chyflwyniad.

11. Fel arfer byddir yn codi tâl er mwyn adennill costau gwasanaethu pob ymholiad.

Sefydliad dielw yw'r CAH rhanbarthol ond, fel arfer, dylai defnyddwyr orfod disgwyl talu tâl rhesymol i gwrdd â chostau darparu gwybodaeth. Gan y gallai ymholiadau fod yn hynod amrywiol, mae graddfa sefydlog o gostau'n amhriodol. Os yw'n debygol y bydd raid wrth waith sylweddol, dylai'r defnyddiwr ofyn am amcan o'r costau ymlaen llaw.

Fel arfer bydd costau ar sail adennill costau er, ar gyfer ymholiadau anffurfiol neu'r rhai hynny sy'n ymwneud ag ymchwil pur, gellid gostwng y rhain neu eu diystyru'n gyfan gwbl (Ile byddir yn cadw mewn cof a fydd y defnyddiwr yn sicrhau y bydd gwybodaeth newydd neu ddiwygiedig ar gael yn rhwydd i'w chynnwys yn y CAH). Fel arfer codir ar gyrff neu unigolion sy'n gwneud gwaith masnachol ar sail adennill costau, yn cynnwys costau cyflog y staff.

Dylid holi ymddiriedolaethau unigol am eu strwythur codi tâl a'u cyfraddau adfer costau llawn ar gyfer darparu ac atgynhyrchu gwybodaeth.



Cyfeiriadau Defnyddiol

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-

Powys

Y Swyddfeydd
Coed y Dinas
Y Trallwng
SY21 8RP
Rhif Ffôn: 01938 553670
E-bost: her@cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed

Corner House
6, Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AE
Rhif Ffôn: 01558 823131
E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol

Morgannwg-Gwent

SA12 Business Centre
Ystad Ddiwydiannol Seaway Parade
Baglan
Port Talbot
SA12 7BR
Rhif Ffôn: 01792 634225
E-bost: her@ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Craig Beuno
Ffordd y Garth
Bangor
Gwynedd
LL57 2RT
Rhif Ffôn: 01248 352535
E-bost: her@heneb.co.uk

Cadw

Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ
Rhif Ffôn: 01443 33 6000
Gwefan: <http://www.cadw.wales.gov.uk>

Y Comisiynydd Gwybodaeth

The Information Commissioners'
Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif Ffôn: 01625 545745
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC)

Ffordd Penglais
Aberystwyth
SY23 3BU
Rhif Ffôn: 01970 621200
E-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk
Gwefan: <https://cbhc.gov.uk/hafan/>

Gellid cyfeirio cwynion at yr Ymddiriedolaeth berthnasol